OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2008 Rhif 1314 (Cy.136)

# ANIFEILIAID, CYMRU

IECHYD ANIFEILIAID

## Gorchymyn Rheoli Clefydau (Cymru) (Diwygio) 2008

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *14 Mai 2008* |
| *Yn dod i rym - -* | *6 Mehefin 2008* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 1, 7 ac 8(1) o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Rheoli Clefydau (Cymru) (Diwygio) 2008. Mae'n gymwys o ran Cymru a daw i rym ar 6 Mehefin 2008.

### Diwygio Gorchymyn Rheoli Clefydau (Cymru) 2003

**2.**—(1) Mae Gorchymyn Rheoli Clefydau (Cymru) 2003(**2**) wedi'i ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn erthygl 2, hepgorer y diffiniad o "milfeddyg".

(3) Yn lle paragraff (3) o erthygl 14, rhodder—

> "(3) Rhaid i bob anifail sy'n cael ei symud o dan drwydded benodol gael ei gadw ar wahân i unrhyw anifail nad yw'n cael ei symud o dan awdurdod y drwydded honno, a hynny ar hyd y daith.".

*Elin Jones*
Y Gweinidog dros Faterion Gwledig, un o Weinidogion Cymru

14 Mai 2008

(**1**) 1981 p. 22. Cafodd swyddogaethau o dan Ddeddf 1981 eu trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan O.S. 1999/672 ac O.S. 2004/3044. Yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r swyddogaethau hyn bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru.

(**2**) O.S. 2003/1966 (Cy.211).

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Rheoli Clefydau (Cymru) 2003 (O.S. 2003/1966 (Cy.211)). Mae'n dileu diffiniad diangen ac yn egluro'r math o drwydded y cyfeirir ato yn erthygl 14(3) o'r Gorchymyn hwnnw.

Ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol ar gyfer yr offeryn hwn, gan na ragwelir y bydd yr offeryn yn effeithio o gwbl ar y sector preifat na'r sector gwirfoddol.